

Gwyliau Cymunedol Cerddorol Cymraeg

Cyflwyniad

Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i Mentrau Iaith Cymru i weithredu cynllun grant ar gyfer cefnogi gwyliau cymunedol cerddorol Cymraeg / Cymreig yn 2020-21.

Y Nod

Nod y Cynllun yw hybu **gwyliau cymunedol gyda phwyslais ar gerddoriaeth boblogaidd Cymraeg** ymysg oedolion ifanc drwy gynnig cefnogaeth ariannol i sefydliadau a grwpiau lleol i'w cynorthwyo gyda'r gwaith o drefnu a chynnal gweithgaredd sy'n cyfrannu at fwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn gymunedol.

Diffiniad:

- Gŵyl gerddorol - digwyddiad gydag elfen o gerddoriaeth fyw yn gryf, diwrnod neu fwy o hyd mewn lleoliad agored neu mewn sawl lleoliad sy'n agored i bobl o bob oed yn y gymuned.
- Cymunedol - digwyddiad sy'n denu llai na 10,000 o ymwelwyr
- Cymraeg / Cymreig - yn dathlu diwylliant Cymru, hunaniaeth Gymreig a'r iaith Gymraeg
- Cerddoriaeth boblogaidd - adnabyddir fel y 'Sin Roc Gymraeg'

Y Gronfa

Cyfanswm y gronfa ar gyfer 2020/21: **£50,000**

Uchafswm y grant a ddyrannir i unrhyw sefydliad / grŵp fydd **£5,000**

Pwy sy'n cael ymgeisio

Bydd y Cynllun yn agored i'r Mentrau Iaith sydd naill ai yn cynnal Gŵyl am y tro cyntaf, neu wedi sefydlu yn y 3 blynedd diwethaf, neu sydd yn cynnwys elfen newydd eleni.

Mae'r cynllun yn agored i'r Mentrau Iaith, ac i unrhyw gyrff neu gymdeithasau cymunedol eraill trwy gydweithrediad gyda Mentrau Iaith. Mae hyd a lled y cydweithio yn benderfyniad i'r fenter leol ond gall fod yn help marchnata, presenoldeb ar y dydd, cyswllt gydag artistiaid Cymraeg, stiwardio. Ond mae'n bwysig bod cadarnhad ysgrifenedig o'r cydweithio hwn gan pob parti yn bodoli o flaen llaw wrth wneud cais.

Gall fudiadau oedd yn llwyddiannus yng nghynllun grant 2019-20 ond ymgeisio ar gyfer cynllun grant 2020-21 os yw'r arian yn mynd at ariannu elfen wahanol o'r ŵyl, ac os yw Mentrau Iaith Cymru, fel gweinyddwr y grant, yn fodlon ar sut gafodd y grant ei wario a'r adroddiad dderbyniwyd arni yn 19/20.

Y Ceisiadau

Bydd disgwyl i'r ceisiadau gynnwys tystiolaeth gadarn o'r elfennau allweddol canlynol:

1. bod yr Ŵyl yn cael ei chynnal drwy gyfrwng y Gymraeg neu bod cymorth i'r Ŵyl gynyddu'r darpariaeth Gymraeg
2. sut fydd y digwyddiad yn annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg ac yn estyn allan i ddenu cynulleidfaoedd newydd i'r Gymraeg?
3. Bod cerddoriaeth Gymraeg ac artistiaid sy'n perfformio drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael llwyfan
4. Bod galw yn y gymuned leol am gynnal y digwyddiad
5. Bod gwaddol y tu hwnt i'r digwyddiad a bwriadau o ran gweithredu pellach
6. Bod cyfraniad gwirfoddolwyr i'r gwaith o drefnu a chynnal y digwyddiad
7. Y byddwch chi'n cydweithio gyda phartneriaid lleol i gynnal y digwyddiad
8. Bod cynllun marchnata effeithiol a defnydd effeithiol o'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo'r digwyddiad

Bydd disgwyl i ran o arian y cais gael ei wario ar y canlynol, a dylid ystyried y pwyntiau hyn yn eich cais:

1. Cyflogi ffotograffydd proffesiynol
2. Sicrhau bod brand clir i'r ŵyl, os nad yn bodoli'n barod, gyda holl ddigwyddiadau'r ŵyl yn cael eu brandio yn yr un ffordd. Mae'n amod i'r gwyliau sy'n derbyn y grant ddefnyddio logo Mentrau Iaith, logo Ariennir gan Lywodraeth Cymru a logo brand Miwsig ar ddeunyddiau marchnata ar gyfer yr ŵyl.
3. Cynnal system gasglu data ar fynychwyr (drwy fideo / holiadur / neu unrhyw fodd arall)
4. Elfen newydd o'r ŵyl (os yw'r ŵyl dros 3 mlwydd oed)

Dylid hysbysu MIC os bydd angen i chi addasu'ch digwyddiad yn sylweddol e.e. ei wneud dros gyfnod o ddigwyddiadau yn hytrach nag un digwyddiad mawr, os yw'r gynulleidfa darged yn cael ei addasu, os oes partner anarferol wedi ymuno.

Bydd disgwyl i'r ymgeiswyr llwyddiannus greu adroddiad terfynol a'i yrru nôl i MIC o fewn deufis o gynnal y digwyddiad. Bydd y ffurflen creu adroddiad terfynol yn cael ei danfon i'r ymgeiswyr llwyddiannus.

Y Broses

Byddwn yn hysbysebu'r grantiau o ddydd Llun, 02/03/2020 gyda chyfnod o 4 wythnos i ymgeisio.

Gwyliau Cymunedol Cerddorol Cymraeg

Bydd modd i ymgeiswyr e-bostio'r ceisiadau at cathryn@mentrauiaith.cymru erbyn hanner dydd (12:00) dydd Llun 30/03/2020

Bydd panel o feirniaid annibynnol yn cyfarfod er mwyn beirniadu'r grantiau llwyddiannus ar ddechrau mis Ebrill. Byddwn yn hysbysu'r ymgeiswyr erbyn 17/04/2020 ac yn cwblhau'r taliadau o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl dderbyn llythyr cadarnhad wedi ei arwyddo gan y mudiadau llwyddiannus.

DIWEDD